# Cofnodion Cyfarfod 12/9/2024

**Presennol:** Eifion Roberts, Fiona Hopkins, Sion McGuinness, Eluned Jones, Eric Williams, Moira Mai, Huw Symonds, Dilwyn Morgan (Aelod lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dilys Evans, Tony Parry, Rhys Evans, Clare Mackintosh a Jacqueline Allen.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Yn absenoldeb y Maer Dilys Evans fe gadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng Eifion Roberts. Estynnwyd croeso i'r Cyng Huw Symonds i'w gyfarfod cyntaf fel cynghorydd, a chyfeiriodd at nifer o ddigwyddiadau diweddar yn y Bala, sef eitem ar ITV Cymru ar ddathliadau y Bala – Yma o Hyd, ac hefyd y ffaith fod beibl gwreiddiol Mary Jones yn dod i'r Bala am gyfnod rhwng Medi 21-22ain.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiad o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 4/7/24.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

   i. Trefniadau cyfethol y Cyng Huw Symonds – cadarnhawyd fod y dogfennau angenrheidiol wedi eu cwblhau ar gyfer ffurfioli sefyllfa Huw fel aelod o'r cyngor.

   ii. Ymddiswyddiad y Cyng Tony Parry: Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad gan Tony Parry yn ei egluro ei fod, oherwydd amgylchiadau personol, yn ymddiswyddo o'r cyngor. Cytunwyd i ddiolch i Tony am ei waith diflino dros y cyngor a'r dref am nifer o flynyddoedd, ac fe gytunwyd i'w anrhydeddu am ei waith. Cytunwyd i hysbysebu'r sedd wag ar y cyngor, ac i lenwi rôl y dirprwy faer yn y cyfarfod nesaf o'r cyngor.

   iii. Triathlon y Bala – cafwyd adborth o driathlon 2024, ac adroddwyd fod trefniadau'r digwyddiad wedi bod yn effeithiol, y dref wedi elwa o'r digwyddiad, a'r ymateb lleol wedi bod yn dda.

   iv. Tomen y Bala – derbyniwyd cadarnhad na fydd angen caniatâd cynllunio i osod meinciau ar Domen y Bala, a nodwyd hefyd fod angen symud ymlaen i docio'r gwrych i wella gweledEdd o'r domen.

   v. Cynllun Creu Lle: Nodwyd derbyn yr adroddiad terfynol, ac fe gytunwyd i drefnu cyfarfod penodol i ystyried y cynllun.

vi. Cynllun Celf Canol Trefi: Derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod ar Fedi 19eg i drafod camau nesaf y gwaith.

vii. Materion Stryd Fawr – rhoddwyd adroddiad o gyfarfod gyda NMWTRA, yr asiantaeth cefnffyrdd ar Orffennaf 31ain pryd y trafodwyd nifer o faterion perthnasol i Stryd Fawr y Bala. Cytunwyd fod angen tabl o gyfrifoldebau gwahanol awdurdodau am wahanol agweddau o'r Stryd Fawr i hwyluso trafodaethau yn y dyfodol.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, ac fe nododd fod MSparc wedi agor swyddfa yn y dref dros dro, a bod gwahoddiad i fusnesau a mudiadau'r dref i ymweld â nhw i gael cyngor ac arweiniad. Cytunwyd i'r gwahodd i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref. Cyfeiriodd at ganmoliaeth gyffredinol i wedd y Stryd Fawr (blodau a baneri etc) a diolchodd i bawb sydd wedi bod yn rhan o hyn.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Cafwyd diweddariad o'r dathliadau, sef gweithdy llusernau a phared ym mis Hydref, ac yna Noson Gwobrau Cymunedol y Bala fis Tachwedd.

**7. Is-bwyllgorau:**

Is Bwyllgor Nadolig: Cafwyd trafodaeth ar addurniadau Nadolig 2024, ac fe gytunwyd ar gyllideb o £2,000 ar gyfer y gwaith.
Is Bwyllgor Asedau: Cytunwyd i gyflwyno adroddiad ar waith yr is bwyllgor yn y cyfarfod nesaf.
Is Bwyllgor Bioamrywiaeth: Nodwyd derbyn gwybodaeth am Becyn Adlenwi ar gyfer gerddi.
Is bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy: Adroddwyd fod bwriad i'r grŵp gyfarfod yn fuan, hyn yn cynnwys sgwrs gyda wardeiniaid lleol y Parc Cenedlaethol.

**8. Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

Cwmni Pum Plwy Penllyn: Adroddwyd o y gwaith o sicrhau cyllid ar gyfer uwchraddio Canolfan Bro Tegid yn parhau, gyda cheisiadau wedi eu cyflwyno i Gyngor Gwynedd.

9. **Materion Cynllunio**: Ystyriwyd y ceisiadau canlynol, ac fe gytunwyd i'w cymeradwyo.

a) Y Co-op: Gosod uned rheweiddio newydd.
b) Glasfryn, 2 Heol yr Orsaf: Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer atgyweirio, paentio a rendrad yng nghefn y tŷ.

*10.* **Materion Cyllid:**

**i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £19,056.38 yn y cyfri cyfredol, £26,691.54 yn y cyfri cadw a £362.57 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod balans o £3,177.46 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd. Nodwyd derbyn 50% o'r praesept gan Gyngor Gwynedd, a grant o £500 gan y Parc cenedlaethol tuag at gostau basgedi blodau etc i'r dref.

**ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, anfonebau Y Bala – Yma o Hyd ynghyd â thaliadau i Gyngor Gwynedd am gynnal toiledau'r dref ac am Archwiliad Mewnol o gyfrifon y Cyngor Tref.

**iii.** Cais am gymorth ariannol gan Glwb Hoci'r Bala: Derbyniwyd cais am arian cyfatebol tuag at gostau ail ddatblygu cael chwarae astro'r dref. Cytunwyd i glustnodi hyd at £3,000, ac i drafod yr anghenion ymhellach gyda'r Clwb Hoci.

**11. Gohebiaeth:**

i. Cwmni Pum Plwy Penllyn – derbyniwyd cais am lythyr cefnogaeth i geisiadau ariannol am gyllid i ariannu car cymunedol i'r dref. Cytunwyd i gyflwyno'r llythyr.

ii. Un Llais Cymru – derbyniwyd gwybodaeth am eu Cynhadledd Flynyddol, Rheol 6 Mis cynghorwyr, Hyfforddiant Gweithredu Cymunedol, gwybodaeth Pwerau a Pholisïau, Recriwtio a Chadw Clercod a Chod Ymddygiad.

iii. Cyngor Gwynedd – derbyniwyd gwybodaeth am raglen waith y Tim Tacluso Ardal Ni, a gwybodaeth am y posibilrwydd o gael arwyddion uniaith Gymraeg i'r dref.

12. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

i) Adroddwyd fod nyth cacwn ger y Ganolfan Deulu, a chytunodd y Cyng Eric Williams i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

ii) Mynediad i blant ifanc tuag at Ysgol Godre'r Berwyn – nodwyd fod yr ysgol yn trafod y mater hwn i sicrhau diogelwch plant wrth gerdded i'r ysgol.

iii) Rheilffordd Llyn Tegid – cytunwyd i ysgrifennu at gwmni'r rheilffordd i'w llongyfarch am eu gwaith hyd yma, ac i ddymuno'n dda i'r datblygiadau i'r dyfodol.

13. Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 3 Hydref 2024.



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)